

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Arian i sefydliadau gefnogi amddiffyn swyddi a magu gwytnwch

## Canllawiau

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**



## Cynnwys


Beth yw'r arian? .......... 3

Beth yw pwrpas yr arian? .......... 3

Pwy sy'n gallu ymgeisio? .......... 4

Beth yw'r blaenoriaethau uwch i'w hariannu? .......... 5

Beth yw'r blaenoriaethau is i'w hariannu? .......... 5

Pa fath o bethau na fyddwn yn eu hariannu? .......... 5

Pa gwestiynau sydd angen eu hateb? .......... 6

Pa ddogfennau a gwybodaeth sydd eu hangen? .......... 7

Sut byddwn yn asesu eich cais? .......... 8

Amserlen .......... 8

Cysylltu â ni .......... 9

Hygyrchedd .......... 9


## Hyrgyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Beth yw'r arian?

Yn sgil trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am sefyllfa ariannol anodd ein sector celfyddydol, rydym wedi cael arian i ddiogelu swyddi a magu gwytnwch yn y sector.

Rydym yn gwybod bod yr angen yn un brys. Felly mae'n bwysig inni allu rhoi'r arian lle mae ei angen fwyaf cyn gynted â phosibl.

Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y galw yn debygol o fod yn llawer uwch na'r arian sydd ar gael. Felly rydym wedi datblygu proses ymgeisio sy'n canolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus.

Darllenwch y meini prawf bod yn gymwys ac atebwch bob cwestiwn asesu (sydd yn 'Pa gwestiynau y mae'n rhaid eu hateb?') yn glir a llawn inni asesu eich cais yn drylwyr. Ni allwn ofyn am ragor o wybodaeth ar ôl ichi gyflwyno eich cais. Mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod ceisiadau anghyflawn.

## Beth yw pwrpas yr arian?

Mae'r arian ar gael i gynorthwyo sefydliadau (ac nid unigolion) sydd â'r angen mwyaf a lle mae modd iddynt ddangos tystiolaeth y bydd yr arian yn eu rhoi mewn sefyllfa gryfach a mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Rhaid i sefydliadau ddangos cynllun cynaliadwy i ddefnyddio'r arian.

## Pwy sy’n gallu ymgeisio?

I ymgeisio, rhaid bodloni’r meini prawf canlynol am fod yn gymwys:

- rhaid i’ch sefydliad fod â chyfansoddiad cyfreithiol nad yw’n gyfyngedig gan gyfranddaliadau ac sy’n gweithredu ar sail nid er elw, er enghraifft:
    - Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
    - Elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
    - Sefydliad Corfforedig Elusennol
    - Cwmni Buddiannau Cymunedol
    - Cymdeithas Anghorfforedig
    - Awdurdod Lleol, Prifysgol, Bwrdd Iechyd neu Gorff Cyhoeddus arall.

Os nad yw math eich sefydliad ar y rhestr, cysylltwch â ni cyn ymgeisio: cefnogibusnes@celf.cymru

Dyma rai o’r sefydliadau na allant ymgeisio (ymhlith eraill):

- Ysgolion
- Adrannau o’r llywodraeth
- Sefydliadau y tu allan i’r Deyrnas Unedig
- Sefydliadau nad ydynt yn gyfredol â gofynion adrodd o ran grantiau eraill gennym.

Ni allwn ariannu sefydliadau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau na lle gellir dosbarthu unrhyw elw i aelodau/cyfranddalwyr.

- Rhaid eich bod yn gweithio yn y sector celfyddydol nid er elw.
- Rhaid bod ag o leiaf dau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr (neu sy’n cyfateb) nad ydynt yn gysylltiedig/perthyn i’w gilydd ac nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad (os yw’r cyfarwyddwyr wedi’u ‘cofrestru’ yn yr un cyfeiriad ond nad ydynt yn byw yno, disgrifiwch y sefyllfa, fel arall ni allwn asesu eich cais).
- Rhaid bod eich sefydliad yng Nghymru (os nad yw eich swyddfa gofrestredig yng Nghymru, nodwch a oes gennych swyddfa yma, fel arall ni allwn asesu eich cais).
- Rhaid bod eich sefydliad sydd wedi’i sefydlu am ragor na 3 blwydd ar 31 Hydref 2024 ac wedi ffeilio o leiaf un set o gyfrifon (lle bo’n berthnasol) a bod yn gyfredol â gofynion adrodd cyfreithiol.
- Os nad ydym yn eich ystyried yn gymwys, ni fyddwn yn asesu eich cais a byddwn yn tynnu eich cais yn ôl ac yn rhoi gwybod ichi pam.

## Beth yw’r blaenoriaethau uwch i’w hariannu?

- Sefydliadau sy’n dangos bod perygl ariannol difrifol a phenodol i oroesi yn y dyfodol. Mae lefel yr arian sydd ar gael yn golygu nad ydym yn debyg o allu ariannu sefydliadau sydd eisoes yn sefydlog ac am ehangu eu gwaith, er enghraifft.
- Sefydliadau sy’n dangos sut y bydd cael yr arian nawr yn sicrhau eu cynaliadwyedd yn y dyfodol.

## Beth yw’r blaenoriaethau is i’w hariannu?

- Sefydliadau nad ydynt yn dangos tystiolaeth o sut y bydd yr arian yn gwella eu cynaliadwyedd.
- Talu am bobl i godi arian lle nad oes cynllun codi arian neu strategaeth glir (ni ddylai codi arian fod yr unig elfen o’ch cynllun).

## Pa fath o bethau na fyddwn yn eu hariannu?

- Bylchau yn y gyllideb lle nad oes tystiolaeth o gynllun gwella realistig.
- Pethau cyfalaf (gan gynnwys offer neu ddarnau mwy o waith adeiladu). Efallai fod symiau bach o arian ar gael o’n cronfa gyfalaf, yn enwedig i gefnogi hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol neu uwchraddio digidol. Gweler ein tudalennau ariannu a fydd yn cael eu diweddaru pan fydd arian ar gael.
- Ni fyddwn yn ariannu unrhyw fwlch rhwng yr hyn y gofynnodd sefydliad amdano yn ei gais i’r Adolygiad Buddsoddi a’r hyn a gafodd yn y pen draw yn ei gynnig ariannu amlflwyddyn. Lluniwyd Cytundebau Ariannu a’r canlyniadau ar sail ein cynigion terfynol.
- Gyda’r galw tebygol, rydym yn annhebygol o allu ariannu swyddi newydd oni bai eich bod yn gallu dangos tystiolaeth sut y byddant yn cyfrannu at wytnwch ariannol eich sefydliad.

Oherwydd yr angen dybryd, y galw mawr a’r nod o ariannu’r rhai â’r angen mwyaf, byddwn yn blaenoriaethu’r rhai a fydd yn hawlio’r arian a gwario’r rhan fwyaf cyn 31 Mawrth 2025.

## Pa gwestiynau sydd angen eu hateb?

Er mwyn gwneud y broses ymgeisio ac asesu mor gyflym â phosibl, rydym yn defnyddio ein ffurflen gais strategol arferol. Felly rhaid cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen mewn dogfen Word ar wahân (a rhaid defnyddio'r templed ar ein gwefan).

Byddwn yn gofyn cwestiynau arferol am faint o arian sydd ei angen a gwybodaeth fras am eich sefydliad. Ond yn bennaf bydd ein hasesiad yn canolbwyntio ar eich atebion yn y ddogfen Word. Felly mae'n hynod bwysig eich bod yn darllen y cwestiynau sydd wedi'u rhifo isod gan ateb pob un yn glir ac yn gywir yn y ddogfen. Os na fyddwch yn ateb pob un, ni fyddwn yn gallu eich asesu ar yr elfen ynddo ac mae'n annhebygol y bydd eich cais yn llwyddo.

Yn y ddogfen Word, atebwch y cwestiynau canlynol yn glir a'u rhifo fel yma:

1. Allwch gadarnhau bod eich sefydliad yn wynebu perygl ariannol sylweddol sy'n peryglu ei oroesiad?
2. Pa broblemau y mae eich sefydliad yn eu hwynebu a sut y bydd yr arian yn eich helpu?
3. Ydych yn rhagweld y bydd yr arian yn sicrhau gwytnwch eich sefydliad ac osgoi'r angen i ofyn am arian tebyg yn y dyfodol? Rhowch dystiolaeth o sut y bydd eich sefyllfa ariannol yn gwella yn y tymor hir. Gallwch roi cyllidebau/llif arian parod yn eich fformat eich hun i gefnogi hyn. O beidio â rhoi gwybodaeth ariannol glir, bydd yn anos asesu eich cais ac o bosibl y bydd yn methu.
4. Os gofynnwch am arian i ddiogelu swyddi, nodwch faint o swyddi fydd yn cael eu diogelu (cyfwerth ag amser llawn a nifer yr unigolion). Hefyd, am faint bydd yr arian yn diogelu'r swyddi? Ni fyddwn yn asesu'r ateb am na fydd pob cais yn diogelu swyddi. Ond bydd yn ein helpu i adrodd am ddefnydd yr arian. Felly os yw'n berthnasol, byddwn yn gwerthfawrogi ateb.

## Pa ddogfennau a gwybodaeth sydd eu hangen?

### 1. Ffurflen gais wedi'i lenwi

Bydd angen ichi lenwi ffurflen gais. Rhaid gofyn am un gan cefnogibusnes@celf.cymru. Rhaid ateb pob cwestiwn yn glir a lanlwytho'r ddogfen Word ar wahân gyda'ch cais.

Mae'r ddogfen Word yn lle'r cwestiwn sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am eich prosiect. Ysgrifennwch 'gweler dogfen Word' ym mlwch y cwestiwn yna wrth gyflwyno eich cais.

Mae dyddiad cau buan yn golygu na fyddwn yn gallu dod yn ôl atoch gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych. Felly, os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth, gofynnwch cyn 23 Hydref. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cyhoeddi cwestiynau ac atebion a allai fod o gymorth i ymgeiswyr eraill.

### 2. Y ddogfen Word ar wahân

Mae ar gael ar ein gwefan a rhaid ei defnyddio. Atebwch bob cwestiwn a lanlwytho'r ddogfen gyda'ch ffurflen gais. Hebddi, ni fyddwn yn asesu eich cais.

### 3. Gwybodaeth ariannol (mewn fformat Excel)

Rhowch gyllideb (yn eich fformat eich hun gan ddibynnu ar eich cais) sy'n nodi'r swm y gofynnwch amdano a manylion (lle bo'n briodol) o sut y bydd yn effeithio ar eich gwytnwch a'ch cynaliadwyedd ariannol. Amlinellwch yn glir eich sefyllfa bresennol ac (os cewch yr arian) un y dyfodol.

## Sut byddwn yn asesu eich cais?

Dyma'r dogfennau allweddol y byddwn yn eu defnyddio:

- eich ffurflen gais
- y ddogfen Word
- unrhyw wybodaeth ariannol rydych chi'n ei chynnig.

Darllenwch y cwestiynau'n ofalus ac atebwch bob un yn gywir. Bydd pob cwestiwn yn cynnwys un elfen i'w hasesu (ar eithrio nifer y swyddi i'w diogelu). O hepgor cwestiwn, mae'n annhebygol y gallwn ariannu eich cais.

Cadwn yr hawl i ddefnyddio gwybodaeth am ein grantiau ichi ers 1 Ebrill 2021 gan gynnwys ffurflenni cais, adroddiadau diweddu ac, ar gyfer sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn, eich cytundeb ariannu i gynorthwyo ein penderfyniadau.

Byddwn yn asesu eich atebion i bob un o'r cwestiynau 1-3 uchod yn ôl y blaenoriaethau ariannu ac unrhyw wybodaeth ariannol arall a rowch. Byddwn yn penderfynu wedyn rhwng ein hasesiadau a faint o arian sydd ar gael.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y cewch lai na'r swm yn eich cais. Ond byddwn yn egluro ein rhesymau yn ein cynnig.

Os yw'ch cais yn aflwyddiannus, byddwn yn rhoi gwybod ichi pam.

## Amserlen

- Ceisiadau ar agor – 16 Hydref 2024.
- **Dyddiad cau ymgeisio – hanner dydd ar 28 Hydref 2024.**
- Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau, gobeithio rhoi gwybod ichi am ein penderfyniadau erbyn canol Rhagfyr.



## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw broblemau technegol gyda'r ffurflen gais, cysylltwch â ni: cefnogibusnes@celf.cymru

Mae ffyrdd erail y gallwch gysylltu â ni:

Ebost: cefnogibusnes@celf.cymru

Ffôn: 03301 242733 (codir pob galwad am gyfraddau lleol) 9am-5pm dydd Llun-dydd Iau, 9am-4.30pm dydd Gwener

Gwefan: celf.cymru

Trydar: @Arts_Wales_

Dyma ragor am gysylltu: Cysylltwch â ni

## Hygyrchedd

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd, gallwn eich cefnogi gydag anghenion penodol yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni i drafod sut: cefnogibusnes@celf.cymru